

# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 18fed o Hydref 2021 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Bethan Lawton (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Alan H. Jones, Geraint Evans, Richard Evans

1. Ymddiheuriadau: Dim
2. Datgan diddordeb: Cyng Geraint Evans – eitem 3 – Clwb Pêl-droed Tywyn a Bryncrug – yn gwirfoddoli gyda'r clwb
3. Clwb Pêl-droed Tywyn a Bryncrug:

Rhodddwyd croeso gan y Cadeirydd i Billy Simkiss, Cadeirydd y Clwb Pêl-droed.

Gofynnwyd sawl cwestiwn i'r cyngor:

-Pam ddylai'r clwb dalu am adnewyddu'r cawodydd yn y Pafiliwn os nad eu cyfleuster nhw ydoedd?

-Fyddai'r Cyngor yn caniatáu i'r clwb osod goleuadau o amgylch y cae er mwyn caniatáu gemau gyda'r nos?

-Nid oedd y clwb yn gymwys am grantiau os nad oeddynt yn berchen ar yr ased – a fyddai'r Cyngor yn medru ymgeisio am grantiau?

Yn ystod y drafodaeth bu i'r Cynghorydd Geraint Evans ddatgan buddiant.

Adroddwyd bod angen pedwar cawod ym mhob ystafell newid, pe byddai'r clwb yn cael ei ddyrchafu byddai yn cael blwyddyn er mwyn codi'r cyfleusterau i'r safon angenrheidiol.

**PENDERFYNIAD:** I'w drafod y mis canlynol.

4. Derbyngofnodion 27 Medi 2021:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.

5. Cyfrifon i'w talu:

B Gwilym	Cyflog	101759	£188.52
Cyllid a Thollau EM	YG	101760	£47.00
Treialon Cwn Defaid	Rhodd	101761	£50.00
J.K.Jones	Torri gwair	101762	£1,080.00

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau uchod.

6. Cwyn gan aelod o'r cyhoedd - diffyg cysgodfa bws ger Pont y Mileniwn:

**PENDERFYNIAD:** I gysylltu gyda Chyngor Gwynedd er mwyn gofyn beth sydd yn bosib, gan gynnig symud taith y bws er mwyn mynd hebio'r toiled fel un opsiwn i'w hystyried.

I adael i'r sawl sydd wedi cysylltu wybod am benderfyniad y Cyngor.

7. Cais gan aelod o'r cyhoedd am beiriant diffibrileiddio - diweddariad:

Adroddwyd bod y gwasanaeth Ambiwlans wedi dweud y byddai angen gwario £1,238 + TAW er mwyn cael peiriant, a cwpwrdd wedi ei wresogi gyda chlo rhif arno.

**PENDERFYNIAD:** I'w drafod y mis canlynol.

8. Cylch yr Iaith - Gwrthwynebu ceisiadau cynllunio ar sail perygl i'r Gymraeg:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

9. Mabon ap Gwynfor AS a Liz Saville Roberts AS - deiseb yn erbyn ffioedd HSBC ar gyfrifon cymunedol:

**PENDERFYNIAD:** Y cyngor i gefnogi'r ymgyrch drwy lofnodi'r ddeiseb.

10. Clwb Ieuencid - diweddariad:

Adroddwyd bod Pwyllgor y Ganolfan yn awyddus i weld y clwb ieuencid yn ailgychwyn. Cafwyd wybodaeth nad oedd Urdd Gobaith Cymru mewn sefyllfa i redeg y clwb ar ran y Cyngor.

**PENDERFYNIAD:** I drefnu bod hysbyseb yn ymddangos yn y Dail, er mwyn ceisio darganfod rhywun sydd gyda diddordeb mewn rhedeg y clwb.  
I wneud y Gymraeg yn ddymunol fel un o'r gofynion.

11. Comisiwn Elusennau - diweddariad:

Yr oedd gwybodaeth wedi ei dderbyn gan y Comisiwn yn datgan nad oedd angen eu caniatâd er mwyn trosglwyddo tir i Elusen Dolgoch. Yr oedd cyfreithwyr sydd yn gweithredu ar ran y cyngor yn awgrymu y dylid penodi unigolyn/ion i weithredu yn annibynnol ar ran yr elusen.

**PENDERFYNIAD:** I ofyn wrth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri weithredu ar ran yr elusen.

12. Cyngor Gwynedd - Sefydlu Fforwm Cymunedol Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru:

**PENDERFYNIAD:** I benodi y Cynghorydd Bethan Lawton fel cynrychiolydd y cyngor, fydd hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd fel Cynghorydd Sir.

13. Biosffer Dyfi - prosiect Trywydd Iach:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

14. Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol - Ymgyngoriad: Adroddiad Blynyddol Drafft:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

15. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:

- y Pafiliwn yn fudr
- y clwb pêl-droed wedi chwarae ar y dydd Sadwrn sydd newydd fod
- canllaw pren wrth mynediad toiled yr anabl wedi pydru
- Wyth polyn yn y ffens angen eu hadnewyddu

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.  
I ofyn am ddyfynbris gan Jones & Jones a James Cyf am ganllaw wedi ei wneud o ddur galfanedig, gyda Key Clamps.  
I ofyn wrth Jones & Jones am gyflenwi a gosod polion ffens newydd  
Y Cynghorydd Geraint Evans i brynu clo er mwyn cau giât y cae chwarae gyda'r nos, gyda'r Cyngor i ad-dalu'r gost ar gyflwyno derbynneb.

16. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Nodwyd y canlynol gan y Cynghorydd Sir:

- hen arwydd hanesyddol wedi torri wrth y bont
- ffiniau ward Cyngor Sir yn newid, creu ward newydd sydd yn cynnwys Bryn-crug, Llanegryn a Llanfihangel y Pennant
- gwaith yn cael ei gynnal ar pont frics

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

17. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Trafodwyd cyflwr pentref Bryn-crug.

**PENDERFYNIAD:** I ysgrifennu at Gyngor Gwynedd er mwyn gofyn pam bod Brynchrug yn flêr, gyda gwair ar ochr y ffordd, tyfiant a chwyn ar ochr palmentydd.  
I ail anfon llythyr ynghylch dim chwarae gemau pêl ym Maes Hyfryd.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:18pm

Llofnod y Cadeirydd .....